

CYFARFOD	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog
DYDDIAD	9 Hydref 2019
TEITL	Adroddiad yr Harbwrfeistr
AWDUR	M. Humphreys Harbwrfeistr Porthmadog

H 1 Materion Mordwyo

- 1.1 Yn gyffredinol, mae cwrs y sianel fordwyo i'r harbwr wedi aros yn gyson dros yr haf, gyda thwf banc tywod achlysurol yn arwain at un neu ddau o fân addasiadau i'r marciau mordwyo, yn enwedig yn yr ardal ger Borth-y-Gest.
- 1.2 Comisiynwyd cymorthyddion mordwyo bwi Rhif 1 a Rhif 3 i gynorthwyo morwyr i groesi'r bar tywod wrth y fynedfa i sianel Porthmadog. Rhagwelir y bydd angen bwiau ychwanegol yn y sianel i baratoi ar gyfer y tymor nesaf, yn ddibynnol ar symudiad y banciau tywod yn yr aber.
- 1.3 Bydd angen adnewyddu'r Bwi 'Fairway' dros y gaeaf ar yn amodol ar gymeradwyaeth Tŷ'r Drindod, bydd y bwi yn cael ei dynnu o'r sianel i'r diben hwn. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau bydd y bwi yn cael ei ddychwelyd i'r dŵr cyn gynted â phosib, yn amodol ar y tywydd ac argaeledd contractwr angorfeydd. Mae prynu marc dŵr diogel newydd (Bwi 'Fairway') yn y dyfodol, yn parhau i fod yn opsiwn i'r Gwasanaeth.
- 1.4 Mae'r cymhorthion mordwyo yn y sianel ger y ddynesfa at Harbwr Porthmadog wedi bod yn destun gwaith cynnal a chadw parhaus, gyda gwaith estynedig i'w wneud eto i adnewyddu a rhifo bwiau'r sianel. Bydd hyn yn rhan o raglen waith yr harbwrfeistr dros y gaeaf.
- 1.5 Ar hyn o bryd, mae dau (2) Rybudd Lleol i Forwyr mewn grym ar gyfer Harbwr Porthmadog.
 - 1.5.1 Rhybudd Lleol i Forwyr 12/19. Nid yw bwi cymhorthydd Mordwyo Rhif 8 yn safle 52°53.506' N 004°09.786'W yn ei leoliad priodol ar hyn o bryd.
 - 1.5.2 Rhybudd Lleol i Forwyr 13/19. Mae bwi cymhorthydd mordwyo dros dro (heb ei oleuo) wedi'i osod yn safle 52°54.571' N 004° 08.699' W i gynorthwyo morwyr i fordwyo ardal o dywod sydd wedi symud i'r sianel fordwyo.
- 1.6 Bydd y Gwasanaeth yn derbyn ei archwiliad blynyddol o Gymorthyddion Mordwyo yn yr Harbwr a dynesfa'r sianel gan staff Tŷ'r Drindod rhwng 14 ac 16 Hydref. Bydd y gwasanaeth yn derbyn adroddiad ar eu canfyddiadau wedi hynny.
- 1.7 Atgoffir morwyr o'r angen i fordwyo'r sianel 1.5 awr naill ochr i'r penllanw wrth fordwyo llong gyda dyfnder mwy nag 1.5 metr. Atgoffir morwyr hefyd y dylid cysylltu â swyddfa'r harbwr cyn cyrraedd er mwyn derbyn yr wybodaeth fordwyo ddiweddaraf.

H 2 Materion Gweithredol

- 2.1 Mae'r cwch, Dwyfor, wedi derbyn gwaith cynnal a chadw i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r cod cychod gwaith gofynnol a'r rheoliadau cyfarpar codi. Yn benodol, roedd y cwch angen gwaith cynnal a chadw i'r injan wedi methiant pwmp hydrolog. Cyfanswm y gost i'r Gwasanaeth oedd £2250.00. O ganlyniad, ni fu modd defnyddio'r cwch am gyfnod, gan nad oedd partiau ar gael, o ystyried oedran y cwch a'i gyfarpar gweithredu.
- 2.2 Mae estyniad 24m i'r strwythur pontŵn presennol ym mherchnogaeth a rheolaeth Clwb Hwyllo Madog wedi'i osod yn yr harbwr, gan ddarparu cyfleusterau angori ychwanegol i aelodau'r clwb ac ymwelwyr.

H 3 Cynnal a Chadw

- 3.1 Gwnaed gwaith Archwilio a Chynnal a Chadw i'r angorfeydd yn yr harbwr ar ddechrau'r tymor er mwyn i gontractwr yr angorfeydd amnewid unrhyw gyfarpar oedd wedi gwisgo. Canfuwyd bod angen amnewid cyfanswm o ddeg (10) cadwyn godi, ynghyd â sawl bwi angori, ac fe amnewidiwyd y cyfan am gost o £1560 i'r Gwasanaeth.
- 3.2 Mae gwaith tarmac bellach wedi'i gwblhau ar y ddynesfa i flaen yr harbwr o ardal y maes parcio sydd wedi'i leoli gyferbyn â Stryd Lombard. Mae gwaith tarmac o amgylch gwaelod y pyst newydd sy'n rhan o'r ffens fetel a'r giât fynedfa gysylltiedig rhwng swyddfa'r harbwr a chefn y Ganolfan hefyd wedi'i gwblhau.
- 3.3 Mae meinciau o gwmpas amgylchedd yr harbwr wedi cael eu hadnewyddu, gyda gwaith pellach i'w gwblhau. Mae'r gwasanaeth dal yn derbyn ceisiadau i leoli meinciau o gwmpas yr harbwr ac yn Borth-y-Gest ond dim ond llefydd cyfyngedig sydd ar gael. Mae'r Gwasanaeth wrthi'n adolygu'r mater ac o ganlyniad, nid oes unrhyw geisiadau pellach yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.
- 3.4 Mae tiroedd yr harbwr wedi parhau i fod yn destun gwaredu ysbwriel, ynghyd â gwaith i gynnal a chadw'r ymylon glaswellt a'r gwrychoedd. Gyda chytundeb aelodau'r Ganolfan, staff yr harbwr sydd bellach yn cynnal a chadw'r ymylon glaswellt sy'n ffinio â llwybr cerdded yr harbwr sydd gyferbyn â wal y Ganolfan ar ochr yr harbwr. Yn ogystal, mae slipffordd yr harbwr hefyd wedi cael ei gynnal a'i gadw'n rheolaidd.
- 3.5 Bydd yr Harbwrfeistr yn cyflwyno'r rhaglen waith cynnal a chadw sydd i'w chwblhau yn harbwr Porthmadog yn ystod y cyfnod mis Hydref 2019 - mis Chwefror 2020. Gofynnir am adborth gan aelodau'r Pwyllgor ynghylch unrhyw waith arall fydd angen ei ystyried a'i gynnwys yn y rhaglen waith.

H 4 Materion Eraill

- 4.1 **Borth-y-Gest.** Mae plinthiau concriid wedi'u gosod ger blaen y maes parcio sy'n edrych dros y bae ac mae meinciau wedi'u gosod i ddarparu lle eistedd i bobl sy'n dymuno ymlacio a mwynhau'r amgylchedd.
 - 4.1.1 Mae'r Gwasanaeth yn parhau i fod wedi ymrwymo i dacluso'r ardal laswelltog ym mhen pellaf y maes parcio lle mae nifer o gychod yn cael eu storio ar hyn o bryd, er gwaethaf y gwrthwynebiad lleol. Yn ystod y broses hon, bydd llongau nad ydynt yn addas i'r môr a

threlars rhydlyd yn cael eu symud oddi yno. Gobeithir, o'r diwedd, y bydd modd cwblhau'r gwaith hwn dros gyfnod y gaeaf.

- 4.2 **Arwyddion diogelwch RNLI.** Codwyd arwyddion diogelwch RNLI yn ardal Morfa Bychan i wella'r mesurau diogelwch. Mae proflenni arwyddion diogelwch RNLI, sydd i'w gosod yn ardal Morfa Bychan yn y pen draw, wedi cael eu derbyn a'u gwirio.
- 4.3 Mae'r Gwasanaeth wedi medru manteisio ar staff ar brofiad gwaith dros gyfnod yr haf gan eu bod wedi cynorthwyo staff yr harbwr i lanhau amgylchedd yr harbwr ym Mhorthmadog. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn ddiolchgar am y cymorth y mae wedi'i dderbyn gan grwpiau ac unigolion lleol sydd wedi ymgymryd â gweithgareddau glanhau traethau ar draeth y Graig Ddu gerllaw.
- 4.4 **Is-ddeddfau Harbwr** Mae'r Gwasanaeth yn parhau i weithio ar ddiweddarau Is-ddeddfau Porthmadog ar y cyd ag Adran Gyfreithiol Cyngor Gwynedd.

H5 Digwyddiadau

- 5.1 Cynhaliwyd y digwyddiadau a ganlyn yn Harbwr Porthmadog yn 2019:
- Moveable Feast
 - Digwyddiadau a gweithgareddau a gynhaliwyd gan Glwb Hwyllo Madog, gan gynnwys Ras Rwyfo Cwch Hir Geltaidd rhwng Porthmadog a Phwllheli a digwyddiad elusenol i gefnogi'r RNLI.
 - Digwyddiad Beic Modur
 - Eto, ymwelodd nifer o gwmnïau ffilm a theledu â'r ardal o amgylch yr harbwr a Thraeth y Graig Ddu gerllaw.